



Pleidleisio drwy'r post

Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais am bleidlais bost.

Pleidleisio drwy'r post




Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais am bleidlais bost.

Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais am bleidlais bost.

Bydd yr adran yma yn esbonio sut i bleidleisio drwy'r post

Byddwch chi'n cael gwybod am y canlynol:

1. Beth sydd angen i chi ei wneud cyn etholiad
2. Sut i anfon eich pleidlais drwy'r post mewn etholiad



Os ydych chi am bleidleisio drwy'r post bydd angen i chi gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol a byddan nhw'n anfon ffurflen atoch chi. Llenwch y ffurflen gais am bleidlais bost ac anfonwch hi i'ch tîm etholiadau lleol. Cyn etholiadau, byddwch chi'n cael papur pleidleisio yn y post.

I gael gwybod sut i gysylltu â'ch tîm etholiadau lleol, ewch i www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Pleidleisio drwy'r post



Beth i'w wneud cyn yr etholiad

Y dyddiad cau i wneud cais i bleidleisio drwy'r post yw 5pm, ddydd Mawrth 19 Ebrill.


Pan fyddwch chi'n llenwi eich ffurflen gais am bleidlais bost, bydd angen i chi gwblhau'r canlynol:

- Eich enw
- Y cyfeiriad ble rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Am faint hoffech chi gael pleidlais drwy'r post



Gallwch dicio blwch sy'n dweud "am gyfnod amhenodol" os hoffech bleidleisio mewn pob etholiad drwy'r post.

Gallwch chi ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy'r post am gyfnod penodol. Er enghraifft, gallech chi ddweud eich bod am bleidleisio drwy'r post rhwng 2022 a 2026 yn unig.



Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Pleidleisio drwy'r post

Os hoffech chi bleidleisio drwy'r post mewn un etholiad, rhwch ddyddiad yr etholiad.

- Cyfeiriad postio'r papur pleidleisio



Ysgrifennwch y cyfeiriad ar gyfer anfon eich papur pleidleisio drwy'r post iddo. Os byddwch chi'n gwneud cais am bleidlais bost am fwy nag un etholiad, dyma'r cyfeiriad y bydd pob pleidlais bost yn cael ei hanfon ato yn y dyfodol.



Eich cyfeiriad cartref yw hwn fel arfer ond os byddwch chi'n mynd i ffwrdd, er enghraifft ar wyliau, rhwch y cyfeiriad lle byddwch chi'n aros. Bydd angen i chi ddweud pam rydych chi am ddefnyddio'r cyfeiriad hwn. Gall eich tîm etholiadau lleol helpu os nad ydych chi'n siŵr beth i roi.

- Datganiad



Yn olaf, llenwch yr adran 'Eich dyddiad geni a datganiad'. Ysgrifennwch eich dyddiad geni a rhwch eich llofnod yn y blwch. Os na allwch chi lofnodi, cysylltwch â'ch tîm etholiadau lleol a byddan nhw'n gallu eich helpu.

Yna, postiwch eich ffurflen i'r cyfeiriad sy'n cael ei nodi.



Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300

Pleidleisio drwy'r post



Cyn yr etholiad, byddwch chi'n cael pecyn pleidleisio drwy'r post a phapur pleidleisio sy'n dangos pwy rydych chi'n gallu pleidleisio drosto. Does dim angen i chi aros tan ddiwrnod yr etholiad i gwblhau eich papur pleidleisio. Gallwch chi lenwi eich papur pleidleisio cyn gynted ag y byddwch chi'n barod.



Sut i bleidleisio gan ddefnyddio eich pleidlais bost

Bydd y pecyn pleidleisio drwy'r post yn cynnwys amlen ragdaledig (prepaid envelope) y byddwch chi'n ei defnyddio i ddychwelyd eich papur pleidleisio.

Gallwch chi hefyd fynd â'ch pecyn pleidleisio drwy'r post i'ch gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.

Angen help? Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap: www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr etholiad, gallwch ffonio llinell gymorth Mencap ar 0808 8000 300.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300



Y
Comisiwn
Etholiadol

Gwybodaeth Cyswllt
e-bost: helpline.wales@mencap.org.uk
ffôn: 0808 8000 300